

CLUDIANT


AC ADDYSG GYMRAEG 16+

**Arolwg o effaith codi tâl am gludiant i
addysg Gymraeg 16+
yng Nghastell-nedd Port Talbot**

Hafan

Cyngor Iaith Hafan

Chwefror 2013



CYNNWYS

CANFYDDIADAU	3
CASGLIADAU	3
1. Cefndir	4
2. Daearyddiaeth	4
3. Dull yr arolwg	5
4. Ymatebion	5
5. Man byw a dull cyrraedd yr ysgol	6
6. Pellter o'r ysgol	6
7. Amser teithio i'r ysgol	7
8. Am gael addysg Gymraeg 16+	8
9. Cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol	9
10. Amser cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus	9
11. Parodrwydd i dalu	10
12. Dymuniad i gael addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol	11
13. Sefydliadau addysg Saesneg 16+ a sefydliadau eraill	12
14. Sylwadau rhieni ac amddifadedd cymdeithasol	12
GRAFFIAU	
Graff 1 Pellter disgyblion o'r ysgol	6
Graff 2 Amser teithio i'r ysgol	7
Graff 3 Dulliau cyrraedd yr ysgol	7
Graff 4 Dymuniad i gael addysg 16+ yn Ystalyfera	8
Graff 5 Hwylustod cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol	9
Graff 6 Amser teithio i'r ysgol gyda chludiant cyhoeddus	10
Graff 7 Parodrwydd i dalu am gludiant i addysg 16+	10
Graff 8 Dymuniad i barhau ag addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol	11
SIARTIAU	
Siart 1 Pellter o'r ysgol ag awydd i gael addysg 16+ yn yr ysgol	8
Siart 2 Awydd cael addysg Gymraeg 16+ pe bai'n rhaid talu am fws, yn ôl awydd cyffredinol i gael addysg Gymraeg 16+	11
ATODIAD A Sylwadau Rhieni	13

Canfyddiadau

1. Mae dymuniad cryf iawn gan ddisgyblion blynyddoedd 9 a 10 Ystalyfera i barhau eu haddysg Gymraeg yno yn 16+ oed.
2. Mae ymateb y rhieni i dalu £270 y flwyddyn am gludiant yn golygu na fydd addysg 16+ yn hyfyw yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Dim ond 6.5% fyddai'n dod yn bendant, a 4.3% arall yn dod yn ôl pob tebyg.
3. Mae darpariaeth cludiant effeithiol yn allweddol i sicrhau cydraddoldeb i addysg Gymraeg, gan fod y ddarpariaeth mor bell o gartrefi'r rhan fwyaf sy'n manteisio arni. Nid oes cydraddoldeb os yw'r ganran sy'n talu £270 y flwyddyn am gludiant yn llawer mwy na'r ganran a fyddai'n talu hyn i fynychu addysg 16+ Saesneg.
4. Mae pryder cyffredinol gan rieni y bydd addysg eu plant yn dioddef.
5. Mae rhieni'n poeni am eu sefyllfa ariannol a fydd yn peri na fyddant yn gallu fforddio'r bws ysgol.
6. Yn wahanol iawn i Goleg Castell-nedd, ac i ysgolion y Sir yn gyffredinol, mae rhyw 80% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera'n byw ymhellach na 5 milltir o'r ysgol.
7. Eto'n wahanol iawn i'r sefydliadau addysg eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae bron 90% o ddisgyblion Ystalyfera'n dibynnu ar fws i ddod i'r ysgol.
8. Yn wahanol i Goleg Castell-nedd, nid oes gwasanaeth bysiau cyhoeddus hwylus i Ystalyfera, felly mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn dibynnu ar fysiau ysgol a ddarperir gan y Sir.

CASGLIADAU

1. Bydd codi £270 y flwyddyn am gludo disgyblion 16+ plant i Ysgol Gyfun Ystalyfera'n debygol o ddod ag addysg 16+ hyfyw yno i ben.
2. Bydd codi tâl am gludiant yn effeithio'n anghymesur ar rai sy'n derbyn addysg Gymraeg ôl 16 yn y Sir. Honiad y Sir yw na fydd codi tâl o £270 am fws ysgol ond yn effeithio ar 1 o bob 10 o ddisgyblion y sir. Bydd hyn yn effeithio ar 9 o bob 10 o ddisgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera.
3. Mae codi tâl am gludiant ysgol yn mynd i gosbi'r llai cefnog yn fwy na neb, a pheri na fydd disgyblion o gefndiroedd tlotach yn gallu parhau ag addysg Gymraeg.
4. Gan fod addysg Saesneg 16+ yn o fewn cyrraedd llawer haws i'r rhan fwyaf o'r disgyblion, mae codi tâl o £270 i fynd i addysg Gymraeg yn gosod addysg Gymraeg o dan anfantais amlwg.
5. Nid yw'r Sir wedi ymchwilio i effaith codi tâl am gludiant ysgol ar addysg Gymraeg 16+, ar addysg 16+ yn gyffredinol nac ar deuluoedd llai cefnog.
6. Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu cludiant i ysgolion gyda'r nod o hybu addysg Gymraeg. Byddai'r cynnig a drafodir yn awr yn cael effaith i'r gwrthwyneb, ac yn andwyol iawn i addysg Gymraeg.

1. Cefndir

Yn Ionawr 2013 cychwynnodd Cyngor Sir Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot ymgynghoriad cyhoeddus ar gludo disgyblion i'r ysgol. Cynnig 2 yw codi tâl o £270 y flwyddyn am gludiant i addysg 16+ yn y sir:

Proposed

To provide post 16 transport and introduce a consistent per pupil charge of £270 per academic year (£90 per term).¹

Yn rhan o ddadl gyhoeddus y Sir o blaid hyn, medd Pennaeth y gwasanaethau Addysg, Karl Napieralla, "We have a duty to be equitable in the way we provide for post-16 education."² Seilir y ddadl ar fod Coleg Castell-nedd, sy'n darparu addysg 16+ yng Nghastell-nedd, Port Talbot, Llandarcy a llawer o ganolfannau eraill, yn codi £100 y flwyddyn ar ddisgyblion yn gyfnewid am gludiant cyhoeddus rhad.

Am y £100 hwn, caiff myfyrwyr deithio'n rhad ar gludiant cyhoeddus trwy gydol y flwyddyn i unrhyw le. Mae Coleg Castell-nedd yn cynnig bws gwennol am ddim rhwng gwahanol safleoedd y coleg, ac mae'r coleg, yn ôl ei wefan, o fewn cyrraedd hwylus cludiant cyhoeddus a ddarperir gan First Cymru. Ni chodir tâl ar ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gyfun Ystalyfera nac Ysgol Gyfun Gatholig St Joseph's ar hyn o bryd.

Eto fel ran o'r ddadl gyhoeddus, medd Andrew Thomas, swyddog yn y Cyngor Sir, mai ar un o bob deg o ddisgyblion 16+ y bydd y tâl ychwanegol hyn yn effeithio.³

Mae Awdurdod Addysg Castell-nedd Port Talbot yn credu y dylai darpariaeth effeithiol ar gyfer plant fod yn rhan annatod o gynllunio ar gyfer anghenion pob plentyn ar sail cyfle cyfartal.⁴

Mae'n ymddangos nad yw'r Sir wedi cynnal ymchwil i effaith codi tâl am fysiau ysgol i addysg 16+ ar:

- Addysg Gymraeg
- Teuluoedd ag incwm bach
- Parhau ag addysg 16+ yn gyffredinol.

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi modd i awdurdodau lleol dalu'n llawn neu'n rhannol am gostau teithio disgyblion lle nad yw teithio'n rhad yn statudol. Rhan o ddyletswydd yr Awdurdod yw darparu cludiant nad yw'n rhoi straen tymor hir diangen ar ddisgyblion, a fyddai'n eu rhwystro rhag manteisio ar yr addysg a ddarperir.

Mae cymal 10 y Mesur yn nodi hyn:

Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

Nid oes tystiolaeth fod y Sir wedi rhoi sylw i'r cymal hwn, ac ni roddir ystyriaeth ganddynt i sut byddai'r cynnig presennol yn hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Daeryddiaeth

Mae Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn weddol gryno o'i chymharu â rhai o siroedd Cymru. Mae'r pellter o'r gorllewin i'r dwyrain o gwmpas 20 milltir ac o'r gogledd i'r de tua 15 milltir.

Mae'r boblogaeth wedi'i chrynhof mewn ardal arfordirol yn ne'r sir (Port Talbot a'r ardal), yn nhref Castell-nedd a'r cyffiniau, ac mewn trefi a phentrefi llai yng nghwm Tawe, cwm Nedd, cwm Dulais a chwm Afan.

¹ *Proposed Neath Port Talbot, Home to School Travel Policy*, Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, 2013.

² *South Wales Evening Post*, Ionawr 25.

³ *South Wales Evening Post*, Ionawr 23.

⁴ Ceir manylion daeryddol yn *Home to School Transport and Guidelines*, Cyfarwyddfa Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, 2006.

Mae lleoliad Ysgol Gyfun Ystalyfera yng ngogledd cwm Tawe'n golygu bod yr ysgol yn gymharol bell o gartrefi'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n ei mynychu. Mae disgyblion yn teithio cryn bellter i ddod i'r ysgol, e.e.

O Bontrhydyfen	14 milltir
O Rosafan	17 milltir
O Sgiwen	13.5 milltir
O Dyle'r Ynn	13.5 milltir
O Resolfen	16 milltir
O Gastell-nedd	11 milltir

3. Dull yr arolwg

Penderfynwyd cynnal holiadur a fyddai'n canfod y canlynol, o ran yr ymatebwyr:

1. Blwyddyn ysgol y disgybl
2. Man byw
3. Pellter bras o'r ysgol
4. Dull cyrraedd yr ysgol
5. Amser teithio i'r ysgol
6. Dymuniad i gael addysg 16+ yn Ysgol Gyfun Ystalyfera
7. Anhawster cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol
8. Amser teithio i'r ysgol ar gludiant cyhoeddus
9. Swm ariannol y byddai'r rhiant yn fodlon ei dalu am gludiant i'r ysgol
10. Hawly disgybl i gael cinio am ddim
11. Tebygrwydd mynd i Addysg 16+ yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, pe bai rhaid talu £270.

Gofynnwyd hefyd i rieni roi eu barn am y syniad o godi £90 y tymor i gludo disgyblion i'r ysgol.

Wedi derbyn yr ymatebion, proseswyd yr holiaduron gyda meddalwedd SPSS, a oedd yn caniatáu cymharu gwahanol newidynnau â'i gilydd.

Mae'r adroddiad canlynol yn nodi prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r holiaduron, gyda sylwadau ychwanegol gan rai rhieni.

4. Ymatebion

Dosbarthwyd yr holiaduron i ryw 300 0 rieni disgyblion blynyddoedd 9 a 10 yn bennaf yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, a gofynnwyd iddynt hefyd ychwanegu eu barn ar y syniad o godi tâl.

Derbyniwyd 139, sef rhyw 46% o'r garfan. Barnwyd bod hyn yn ymateb sylweddol, a bod yr ymatebion a gafwyd yn ddilys i'w dadansoddi ac i'w derbyn yn gynrychioliad teg o'r garfan. Mae dosbarthiad lled cyfartal rhwng rhieni blwyddyn 9 a blwyddyn 10, a hefyd o ran ardaloedd byw.

Mae'n bosibl bod y rhai a ymatebodd, fel sy'n digwydd yn achos holiaduron o'r fath, yn fwy tebygol o ymddiddori yn y pwnc o dan sylw na rhai nad ymatebodd. Gall hyn olygu bod yr ymatebion yn gogwyddo ryw gymaint tua at rai sy'n dymuno parhau mewn addysg Gymraeg 16+, neu at rai sy'n ymddiddori'n gyffredinol mewn addysg Gymraeg. Wedi dweud hynny, mae'r patrymau amlwg a welwyd yn yr ymatebion, a'r ganran uchel a ymatebodd o fewn wythnos o dderbyn yr holiadur, yn dangos bod diddordeb byw yn y pwnc a bod yma ystyriaethau y mae'n rhaid eu hystyried.

5. Man byw a dull cyrraedd yr ysgol

Roedd yr ymatebwyr yn byw yn y manau hyn:

Ystalyfera	3%
Cwm Tawe	10%
Gogledd orllewin y sir	4%
Cwm Nedd a Chwm Dulais	32%
Castell-nedd a'r cyffiniau	23%
Llansawel	4%
Port Talbot a'r cyffiniau	17%
Powys	7%

Yn sgil pellter cartrefi o'r ysgol, mae cludiant i'r ysgol trwy fws am ddim yn hanfodol i barhad yr ysgol. Mae 2% o'r disgyblion yn cerdded, 8% yn dod mewn car, a 90% yn dod mewn bws ysgol.⁵


6. Pellter o'r ysgol

Cafwyd bod 78% o'r disgyblion yn byw ymhellach na 5 milltir o'r ysgol. O blith y gweddill roedd 5% yn byw o fewn milltir, a 12% disgyblion yn byw o fewn 3 milltir i'r ysgol, sef y pellter sy'n eithrio disgyblion o gludiant am ddim yn ôl y gofynion statudol. Roedd 9% yn byw rhwng 3 a 5 milltir o'r ysgol. Roedd mwy na thri chwarter y disgyblion yn 3 milltir o'u hysgolion.

Mae'r patrymau pellter yn wahanol iawn i batrymau'r Sir yn gyffredinol, lle mae mwyafrif helaeth disgyblion ysgolion Saesneg yn byw o fewn 3 milltir i'w hysgol gyfun agosaf.

Er mwyn sicrhau bod mynediad i addysg Gymraeg mor hwylus â mynediad i addysg Saesneg, mae angen i'r ddarpariaeth gludiant fod ar gael yn hwylus.

Graff 1 Pellter disgyblion o'r ysgol




⁵ Mae hyn yn cyfateb yn agos i ffigurau sydd gan yr Ysgol ei hun, sef bod 86% o ddisgyblion yn teithio ar fws ysgol, ac 14% yn dod trwy ddulliau eraill. Gw. *Response to Neath Port Talbot CBC*, Ysgol Gyfun Ystalyfera, Chwefror 2013.

7. Amser teithio i'r ysgol


Mae 25% o'r disgyblion yn cymryd hanner awr neu lai i deithio i'r ysgol. Mae 36% yn cymryd rhwng hanner awr a thri chwarter awr, 17% yn cymryd rhwng tri chwarter awr ac awr, a 4% yn cymryd mwy nag awr. Mae'r amserau teithio hir hyn, yn sgil lleoliad yr ysgol, yn golygu bod straen teithio parhaus ar y rhan fwyaf o ddisgyblion, er gwaethaf dymuniadau statudol na ddylai teithio i'r ysgol osod straen ar fyfyrwyr.

Graff 2 Amser teithio i'r ysgol



Mae pellter o'r ysgolion yn dylanwadu ar yr amser cyrraedd. Gwelwyd bod y mwyafrif helaeth yn byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol, ac yn cymryd mwy na hanner awr i gyrraedd yr ysgol. Mae darpariaeth bws ysgol am ddim yn lliniaru ar yr amser teithio, fel y gwelir yn nes ymlaen, pan ofynnwyd am amser teithio gyda chcludiant cyhoeddus. Mae bodolaeth cludiant rhad i'r ysgolion yn gwneud iawn i raddau ar hyn o bryd am bellter disgyblion o'r ysgol.


Graff 3 Dulliau cyrraedd yr ysgol



8. Am gael addysg Gymraeg 16+

Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn yn holi am ddymuniad i gael addysg Gymraeg 16+. Roedd 74% yn bendant am gael hyn a 20% yn dweud y byddai'n debygol y byddent am gael addysg Gymraeg. Mae hyn yn uwch na'r niferoedd sydd wedi aros am addysg 16+ yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf, ond gwelwyd y ganran yn codi'n ddiweddar, o 45% yn 2009 i 68% yn 2012, gyda 71% yn dymuno aros ar gyfer mis Medi 2013.

Graff 4 Dymuniad i gael addysg 16+ yn Ystalyfera




Fel y gwelir yn nes ymlaen, bydd y patrwm cadarnhaol hwn yn cael ei chwalo wrth godi tâl am gludiant ysgol.

Gwelwyd, fodd bynnag, beth cydberthyniad rhwng byw'n agos at yr ysgol a'r dymuniad i barhau ag addysg 16+ yno.

Roedd 88% o'r rhai a oedd yn byw o fewn 3 milltir i'r ysgol yn bendant am gael addysg 16+ yno. Roedd hyn yn disgyn i 72% o'r rhai a oedd yn byw mwy na 5 milltir o'r ysgol. Fodd bynnag, oherwydd bod y mwyafrif yn byw mwy na 5 milltir o'r ysgol (78 allan o'r 103 a ddywedodd eu bod yn bendant am ddod i Ystalyfera) mae dyfodol addysg 16+ yr ysgol yn dibynnu ar y rhain.

Siart 1 Pellter o'r ysgol ag awydd i gael addysg 16+ yn yr ysgol




9. Cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol

Er mwyn ceisio canfod pa mor ddibynnol yw'r ysgol ar gludiant bysiau ysgol, gofynnwyd i'r rhieni pa mor hawdd fyddai hi i'r disgyblion gyrraedd yr ysgol heb fws ysgol.

Roedd y ganran fwyaf, 62%, yn dweud y byddai'n amhosibl. Byddai'n anodd i 22%, ac yn hawdd neu'n eitha hawdd i 11%. Mae Ysgol Gyfun Ystalyfera, yn wahanol i'r rhan fwyaf o ysgolion Castell-nedd Port Talbot, yn dibynnu'n llwyr ar y gwasanaeth bysiau ysgol. Byddai gwanhau'r ddarpariaeth honno'n rhwym o wanhau'r ysgol.

Graff 5 Hwylustod cyrraedd yr ysgol heb fws ysgol




10. Amser cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus

Holwyd am amserau cyrraedd yr ysgol ar gludiant cyhoeddus. Meddai 3% nad oedd yn bosibl i'r disgyblion gyrraedd â chludiant cyhoeddus. Byddai cludiant cyhoeddus yn cymryd mwy nag 1½ awr i 46% o'r disgyblion a mwy nag awr i 19% arall.

Roedd yn glir bod gwasanaeth cludiant cyhoeddus i Ystalyfera'n anhwylus iawn ac na fyddai dibynnu ar gludiant cyhoeddus, fel y gall Coleg Castell-nedd wneud, yn ymarferol nac yn bosibl.

Byddai dwy ran o dair o'r disgyblion yn treulio mwy na 2 awr y dydd yn teithio pe baent yn defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol iawn â'r hyn a ddywedir gan Goleg Castell-nedd am gludiant cyhoeddus i'r coleg hwnnw

Graff 6 Amser teithio i'r ysgol gyda chluddiant cyhoeddus




11. Parodrwydd i dalu

Roedd yn glir bod gofyn i rieni dalu £270 am addysg 16+, ar ôl hanes di-dor o gludiant am ddim, yn cael adwaith negyddol iawn gan rieni. Gofynnwyd am barodrwydd i dalu symiau eraill, gan gynnwys llai na £100, £100, £200 neu lai neu £270.

Meddai 87% na fyddent yn barod talu dim. Roedd 12% yn fodlon talu £100 neu lai. Dim ond 1% oedd yn fodlon talu £200 neu'r swm y gofynnir amdano, sef £270.

Gall y Sir ei hun drafod i ba raddau mae gofyn am swm sylweddol o arian gan rieni, ar ôl i'r Sir ddarparu'r gwasanaeth am ddim o'r cychwyn, wedi cael adwaith negyddol y gellid bod wedi ei osgoi o gyflwyno hyn yn fwy graddol. Mae ymateb chwyrn rhieni i'r syniad yn glir, gydag yn agos at 9 o bob deg yn gwrthod talu.

Graff 7 Parodrwydd i dalu am gludiant i addysg 16+




12. Dymuniad i gael addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol

Yn wyneb yr arian y byddai'n rhaid ei dalu i fynychu addysg Gymraeg 16+, roedd y dymuniad i barhau gydag addysg Gymraeg yn lleihau'n ddirfawr.

Mae gostyngiad amlwg i'w weld o gymharu hyn â'r galw presennol am addysg Gymraeg 16+. Mae'r ganran sy'n bendant am gael addysg o'r fath wedi newid o 74% i 7%. Mae'n ymddangos y byddai'n dasg anodd cynnal darpariaeth Gymraeg hyfyw 16+ yn Ystalyfera heb gludiant ysgol am ddim.


Graff 8 Dymuniad i barhau ag addysg Gymraeg 16+ a thalu am fws ysgol



Wrth gymharu'r rhai sydd ag awydd cael addysg 16+ yn Ystalyfera, a'r newid yn y dymuniad hwn pe bai rhaid talu, ceir bod 9 a oedd gynt yn bendant yn awr yn dal yn bendant, a 5% arall yn fwy na thebyg o ddal i eisiau cael addysg Gymraeg.

Ar wahân i'r rhain, nid oedd neb arall yn bendant am barhau yn Ystalyfera, be bai rhaid talu am fws.

Siart 2 Awydd cael addysg Gymraeg 16+ pe bai'n rhaid talu am fws, yn ôl awydd cyffredinol i gael addysg Gymraeg 16+



Ymysg y niferoedd bach hyn, roedd y rhai a oedd yn bendant am barhau ag addysg 16+ yn Ystalyfera i gyd yn byw o fewn taith 45 munud i'r ysgol.

Byddai'r awydd i barhau yn Ystalyfera yn gwanhau yn ôl pellter i'r ysgol. Roedd 28% o'r rhai a oedd yn byw o fewn taith 15 munud yn bendant am barhau. Yna dim ond 3% o'r rhai a oedd yn byw rhwng 15 a 30 munud o daith a oedd am barhau, a 2% o'r rhai a oedd yn byw rhwng 30 a 45 munud o daith o'r ysgol.

13. Sefydliadau addysg Saesneg 16+ a sefydliadau eraill

Mae gan Goleg Castell-nedd ganolfannau dysgu sydd yng nghanol crynodiadau poblogaeth, yng Nghastell-nedd, Port Talbot a Phontardawe. Mae'r coleg hefyd yn gallu darparu cludiant bws gwennol am ddim rhwng y canolfannau hyn a chanolfannau eraill, e.e. Llandarcy.

Mae Sir Abertawe'n dal i ddarparu cludiant am ddim i addysg 16+. Mae'n bosibl rhagweld y bydd cludiant o'r fath ar gael i rai sy'n byw ar ymylon Castell-nedd Port Talbot i fynychu addysg Gymraeg yn Abertawe.

Mae Powys yn darparu cludiant am ddim i Ystalyfera, a bellach bydd yn anfantais i drigolion Castell-nedd Port Talbot fyw yn eu sir.

14. Sylwadau rhieni ac amddifadedd cymdeithasol

Mae ymateb y rhieni'n ymwneud â 4 prif thema:

1. mae pellter Ystalyfera'n ei gwneud hi'n anodd i ddisgyblion gyrraedd.
2. bydd addysg Gymraeg yn dioddef, o'i chymharu ag addysg Saesneg.
3. gofid am gosbi rhieni sydd â llai o fodd.
4. pryderon hefyd nad yw'r sir yn hyrwyddo addysg 16+ trwy fynnu tâl am gludiant.

Mae'r rhieni'n sôn am eu hanawsterau personol i dalu am fws, yng nghefnidir y dirwasgiad economaidd presennol. Nid yw'r rhieni hyn o reidrwydd yn ddi-waith, ond yn rhai ar incwm cymharol isel a byddai tâl ychwanegol, lle mae posibiladau rhatach ar gael, yn peri na fyddan nhw'n gallu anfon eu plant i Ystalyfera.

Mae'r rhieni'n ymwybodol iawn o effaith hyn ar y Gymraeg, a hefyd ar hyrwyddo addysg yn gyffredinol.

Mae sylwadau'r rhieni'n ymwneud â'r hyn a ystyrir yn amddifadedd cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys amddifadedd incwm, ond mae hefyd yn ymwneud ag amddifadedd o ran gwaith, iechyd ac addysg. Mae byw ymhell o gyfleusterau addysg yn un ffactor wrth fesur amddifadedd cymdeithasol. Mae'n ymddangos nad yw'r Sir wedi ystyried y ffactorau hyn wrth gynnig codi tâl am gludiant i addysg. Mae modd rhagweld y bydd y cynllun sydd gerbron yn cynyddu amddifadedd cymdeithasol yn ardaloedd pellennig y sir, yn enwedig ymysg rhai yr ystyrir eu bod eisoes yn dioddef o amddifadedd incwm a gwaith.

Fe welir sylwadau'r rhieni yn Atodiad A.

ATODIAD A

SYLWADAU RHIENI

Nodir yma, er hwylustod dadansoddi, rif yr holiadur perthnasol. Mae'r sillafu fel y'i ceir yn y gwreiddiol.

Anawsterau pellter

It will make things very difficult as there is no public Transport going from Crynant to Ystalyfera. (1)

There is no direct public Transport from Glynneath making it impossible to get to Ystalyfera. (23)

Discriminates against children not living locally. (32)

Due to the travelling distance (approx 10 miles), it is not possible for me to take/fetch my daughter to school. (49)

Absolutely disgusting. Our children will have sacrificed travelling for distances every day to keep the Welsh language alive. By doing this a lot will change schools. (108)

Anfanteisio addysg Gymraeg

[...] attends the only Welsh medium School in our area therefore she will be disadvantaged and may not be able to continue her Education. (1)

The idea of charging for Access to Welsh medium schooling is disgraceful and discriminatory. (9)

Mae hyn yn ymosod uniongyrchol ar addysg Gymraeg gan nad oes darpariaeth arall ar gael yn agosach i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. (10)

As the only Welsh comprehensive School is so far away buses should be free. (15)

I believe it is disgusting to charge for Transport to and from School that far away, and it being the only Welsh School in my area. (28)

It isn't right it would be denying my child a Welsh medium education. (30)

This is disgusting – we have no choice – there is only 1 Welsh medium 6th form in NPT! (31)

I think the idea is terrible. It would be punishing us for wanting our children to have a Welsh education. (40)

Mae'n annheg fod trefniadau cludiant yn amharu ar y dewis i gael addysg 16+ drwy gyfrwng y Gymraeg. (44)

Should be encouraging Welsh speaking not pushing pupils away. (53)

Dw i'n credu fod y syniad yn ofnadwy, yn enwedig y cynlluniau newydd sydd yn digwydd yn Ystalyfera. Pam peryglu dyfodol addysg Gymraeg? (54)

If it comes into force my daughter will go to Neath Port Talbot College. (74)

We should be encouraging pupils to stay in the Welsh medium for as long as possible. (75)

Ystalyfera is the only Welsh medium in NPT. School bus is the only available Transport. The Policy is unfair and any savings are not justified. (78)

There is no other 6th form my child can attend, as they have had schooling in the Welsh language since she was 3 and there is no closer Welsh medium school for her to attend. (81)

It is impossible for pupils to travel such distances to fulfill their education in Welsh. (85)

Does not promote equality, is therefore unfair. Makes English medium education more accessible and does not have regard for the proposed Welsh standards legislation. (86)

Ridiculous, he wants to attend Welsh medium education, this is the only 1 in the area. (99)

Think it is absolutely disgusting to even consider the idea and take away our Welsh language. (106)

I feel that this move is penalising young people who want to keep the Welsh heritage alive. (112)

It would victimise pupils that want to learn Welsh who live faraway from school. (116)

Agree with making education available in your preferred language equal for all. (119)

Mae'r syniad yn warthus – ydy'r cyngor yn targedu addysg Gymraeg? (121)

Yn niweidiol i ysgol cyfrwng Cymraeg fel Ystalyfera oherwydd bod canran uchel o'r disgyblion yn gorfod teithio i dderbyn addysg Gymraeg. (124)

Effaith ar y llai cefnog

I think that it is going to be difficult for people who are claiming benefits and without their own transport to sort. (3)

Ofnadwy, mae'r sefyllfa gyda arian yn galed ar hyn o bryd heb talu am fws ysgol. (8)

We, as a family, cannot sustain this continual Financial pressure. (11)

Penalise those children on lower incomes who may not be able to afford the transport. (13)

People are finding it difficult enough to clothe and feed families and pay utility bills. Disgraceful. (14)

I do think that it is unfair that I would have to pay so much for the bus. (16)

Expensive (17)

I could not afford to pay this. (20)

NPT should give the NOT so wealthy a chance to get on in life! (21)

My daughter has studied at 6th form and I would like my son to follow, but not at that cost. It is expensive enough without any further charges. (23)

I cannot afford it (29)

Would cancel out child benefit which does not even cover School lunches at present. (33)

Families are facing many imposed Financial difficulties at present. (39)

Poeni ydw i y bydd rhai sydd ddim yn gallu talu yn gadael addysg bellach yn gyfan gwbl. (46)

It will cause severe problems for individual families. (50)

Unaffordable (51)

As a single parent it would be difficult to afford the £270 for the bus. (57)

We would have to take him out if our financial situation changed. (60)

Mae addysg Gymraeg yn bwysig i ni fel teulu, ond ni fydd modd i mi codi arian er mwyn iddyn nhw fynd i'r ysgol a pharhau ei haddysg. (61)

Some people can't afford to pay a fee. I think NPT should be ashamed. (71)

Many families simply cannot afford that. This is discriminating families on lower incomes. (74)

Disgraceful and discriminatory. (76)

The amount is too much money (81)

If there is a charge, this will effect our Financial situation, therefore resulting in my daughter not likely to study 6th form. (83)

I am appalled by this – my child is keen to continue in school and if the bus is going to cost £270 a year, I will have to say we can't afford it. (84)

An extra charge on people who are already struggling with their finances. (88)

With the lack of free transport my son won't be able to further his education as I am a lone parent and this would be impossible for me to pay. (89)

Another way to stop less well off children from getting higher education. (93)

Couldn't afford it, I have four children of whom would like to attend sixth form. (94)

I would be impossible for [...] to stay on at the school, with further education. (98)

In the current economic climate this charge could make it impossible for maybe even the brightest of pupils to attend education beyond the age of sixteen. (102)

It is impossible for people with low wages. (103)

Some families have financial problems and can not afford this fee. (110)

It will be cheaper for her to attend Afan College for 6th form. (114)

Just another way of discouraging children from continuing education. (117)

The recession is having enough effect on families already without this further cut. (118)

If the idea of paying for the Ystalyfera bus happens, my younger daughter will go to Bryn Tawe in 2004! (120)

Scandalous... we have two children (twins) that would make it £180 a term. (122)

Ridiculous, education is important, this charge is going to be unaffordable for a lot of families and their children will be more likely to end up on the dole queue. (126)

Too expensive. I have a daughter that studies at Neath College. Her bus pass is £40 a term and she can use it on any bus at any time, therefore it is good value for money. (127)

I think it's an unrealistic amount of money to expect low income families to find. (136)

Gwneud drwg i addysg

Penalising someone for wanting further Education is unacceptable. Surely the council would want to encourage those students who are capable to fulfill their potential. (5)

Outrageous – unfair, and directly opposed to all efforts to encourage children to strive for a better education. (6)

Will in many cases take away the freedom of choice in your child's education.

Its difficult enough for children to stay on with further education without adding extra costs on top.

Children should be encouraged to continue with their education not barriers put in their way. What is next tuition fees? (19)

It makes higher education less likely. (33)

This would jeopardise my childs chance of a good education. (38)

The British government and WAG wish to encourage children to remain in full time education from 16yrs and also encourage young people to strive towards higher education. This charge is surely 100% detrimental to this wish. (39)

I think it will discourage students to stay on in School. (42)

Shouldn't we be encouraging children to further their education. (43)

I would be appalled if this materialised and would seriously have to re-thing my daughter continuing with her 16+ education.

Charging for children to go to school – unbelievable! (77)

Clearly NPTCBC no longer values education, preventing certain pupils from taking advantage of 6th form opportunities. (82)

It will have an adverse effect on the opportunities available to my son. (104)

He wouldn't be able to continue his education. (129)

People don't have the money to spend on a bus ride. (132)

We will have to go to local college in the medium of English and therefore the language will be lost. (133)

If this happens most of the pupils of Ystalyfera will go to college and the Welsh language would be lost. (134)

Ni fydd arbedion cost

If post 16 children are going to be travelling on the School bus with 11-16 age students then NPT Council are not actually having any extra Transport costs. (49)

The school bus is going there anyway and it is the only Welsh school in the area. (53)

The bus is already going to the school for other pupils for free so a few extra pupils is not costing anything

more. (68)

The bus already takes the younger pupils to school. Why charge for the 6th form on the same bus? (70)

Pam gall plant ym Mhowys fynd am ddim? (125)

Ffynonellau

Gwaith ymchwil:

Holiaduron i rieni blynyddoedd 9 a 10, Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Cyhoeddedig:

Home to School Transport and Guidelines, Cyfarwyddfa Addysg Hamdden a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, 2006.

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, Llywodraeth Cymru.

Proposed Neath Port Talbot, Home to School Travel Policy, Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot, 2013.

Response to Neath Port Talbot CBC, Ysgol Gyfun Ystalyfera, 2013.

South Wales Evening Post, Ionawr 23.

South Wales Evening Post, Ionawr 25.

Llun:

Jonathan Billinger, <div xmlns:cc="http://creativecommons.org/ns#" xmlns:dct="http://purl.org/dc/terms/" about="http://s0.geograph.org.uk/photos/91/87/918785_df1add20.jpg">Ysgol Gyfun Ystalyfera (Jonathan Billinger) / CC BY-SA 2.0</div>